Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Mehefin 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Emrys Wynne / Gary Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gary Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr adroddiad** | Manon Celyn Roberts, Swyddog y Gymraeg |
| **Teitl** | Strategaeth y Gymraeg 2023-28 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygu Strategaeth y Gymraeg newydd ar gyfer Sir Ddinbych 2023-28.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cyflwyno Strategaeth y Gymraeg newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg newydd sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl awdurdodau lleol fabwysiadu Strategaeth y Gymraeg, fel rhan o'i ymateb i'r Safonau.

4.2. Mae'r strategaeth bresennol, a fabwysiadwyd gan Gabinet Sir Ddinbych ym mis Mawrth 2017, yn amlinellu'r dull tuag at hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd

ohoni o fewn y sir. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei strategaeth, bum mlynedd ar ôl y dyddiad cyhoeddi.

4.3. Mae swyddogion wedi edrych ar sawl enghraifft o arfer gorau gan gynghorau eraill, y wybodaeth ddemograffig sydd ar gael ac wedi ystyried llwyddiannau'r strategaeth flaenorol.

4.4. Wrth ddrafftio'r strategaeth, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r gwasanaethau a phartneriaethau mewnol ac allanol perthnasol. Mae'r ymgysylltu ac ymgynghori hwn wedi llywio'r fersiwn drafft terfynol.

4.5. Mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Ganolfan Cynllunio Iaith i ddadansoddi data, cynnal ymchwil, a llunio adroddiad sicrwydd ar Strategaeth y Gymraeg 2017-2022. (gweler atodiad 2 ar gyfer yr adroddiad hwn)

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n rhan o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllid ar wahân ar gael ar gyfer y gwaith hwn ond talodd Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid £12,000 ar gyfer costau comisiynu'r Ganolfan Cynllunio Iaith i gynhyrchu'r adroddiad sicrwydd (Tachwedd 2022). Ni fydd hyn yn wir bob tro y bydd angen i ni adolygu'r Strategaeth (bob 5 mlynedd), a'r unig reswm am hyn yw mai dyma Strategaeth y Gymraeg a'n hadroddiad sicrwydd cyntaf. Bydd unrhyw gostau eraill yn cael eu hysgwyddo gan bartneriaid presennol a thrwy ewyllys da aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o gydrannau allweddol y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cael: “Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.”

Mae gan y Cyngor rôl, drwy Safonau’r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol fod yn rhan o weithgareddau Cymraeg.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd ag Aelod Cabinet Arweiniol y Gymraeg a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol. Mae’r Strategaeth hefyd wedi’i chymeradwyo gan Bwyllgor Llywio’r Gymraeg ac mae wedi’i mabwysiadu gan Fforwm Partneriaeth y Gymraeg Sir Ddinbych.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol parhaus i'r adroddiad hwn ac mae'r costau wedi'u cynnwys yng nghyllidebau cyffredinol y gwasanaeth. Cefnogir yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae gostyngiad eisoes yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir fel y’i mesurwyd gan gyfrifiad cenedlaethol 2021. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn atal unrhyw ddirywiad pellach. Mae holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011